OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 423 (Cy.41) (C.19)

CEFN GWLAD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud - - 1 Mawrth 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 103(3) a (4) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("y Ddeddf") (**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf a'r Atodlenni iddi.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y Diwrnod penodedig

2. 28 Mai 2005 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym—

(a) adran 2 (hawl mynediad i dir mynediad);

(b) adran 12 (effaith hawl mynediad ar hawliau a rhwymedigaethau perchenogion);

(c) adran 13 (rhwymedigaeth meddianwyr);

(ch) adran 14 (tramgwydd arddangos hysbysiadau ar dir mynediad sy'n ceisio darbwyllo'r cyhoedd i beidio â defnyddio'r tir);

(d) adran 46(3) (sy'n cyflwyno Atodlen 4) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 4 y cyfeirir atynt ym mharagraff (e) o'r erthygl hon;

(dd) adran 102 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 16 y cyfeirir atynt ym mharagraff (ff) o'r erthygl hon;

(e) Atodlen 2 (y cyfyngiadau i sydd i'w cadw gan bobl sy'n arfer hawl mynediad);

(**1**) 2000 p.37.

(f) paragraffau 2 (diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 (**2**)) a 3 (diwygio Deddf Amaethyddiaeth 1967 (**3**)) o Atodlen 4; ac

(ff) i'r graddau nad yw eisoes wedi dod i rym, Rhan I o Atodlen 16 (dirymu).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

John Marek
1 Mawrth 2005 Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1967 p.10.
(**3**) 1967 p.22.
(**4**) 1998 p.38.